PROSBECTWS CWRS

# Llesiant mewn Natur

Cymwysterau



ARCHWILIO >

# Cynnwys

## Lefel 3 Ymarferydd Llesiant mewn Natur


Trosolwg o'r Cymwysterau 3

Unedau Gorfodol 4

Unedau Dewisol 5

Pa safon o waith sydd ei angen? 6

Faint o amser fydd y cwrs yn ei gymryd? 6

Gofynion Asesu 7

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? 8

Gofynion mynediad 8

Llwybrau dilyniant 9


## Lefel 2 Cefnogi Llesiant mewn Natur


Trosolwg o'r Cymwysterau 10

Unedau gorfodol a dewisol 11

Faint o amser fydd y cwrs yn ei gymryd? 12

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? 12


## Darparwyr Cwrs


Darparwyr Cwrs 13

TROSOLWG O'R CYMWYSTERAU

# Lefel 3 Ymarferydd Llesiant mewn Natur

Mae cymwysterau Tystysgrif Lefel 3 a Thystysgrif Estynedig Llesiant mewn Natur Agored Cymru yn cydnabod y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer ymarferwyr sy'n cynnig gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur er budd iechyd a llesiant.

Ei nod yw rhoi'r hyder a'r wybodaeth i'r myfyrwyr redeg rhaglenni pwrpasol sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant gan ddefnyddio amgylcheddau naturiol.

Gyda'r angen am bregripsiynau cymdeithasol yn cynyddu, mae'r cymhwyster hwn yn galluogi'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros wneud atgyfeiriadau i fod â hyder yn ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.



# Unedau gorfodol

Mae'r cymhwyster yn cynnwys tair uned orfodol:

1

### Egwyddorion Llesiant mewn Natur

Credydau: 3

Diben yr uned hon yw archwilio'r ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant pobl ac i gael gwerthfawrogiad o'r manteision niferus i lesiant y gall bod yng nghanol byd natur eu cael. Mae'n edrych ar fentrau iechyd a deddfwriaethau cyfredol, damcaniaethau am lesiant a newid ymddygiad, a sut y gellir defnyddio'r rhain i lywio ymarfer.

2

### Arweinydd Hwyluso Llesiant mewn Natur

Credydau: 7

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau i alluogi hwyluso ac arwain grwpiau llesiant sy'n seiliedig ar natur yn effeithiol. Mae gan yr uned hon elfen ddamcaniaethol ac ymarferol ac mae'n gofyn i'r myfyriwr ddatblygu a rhedeg rhaglen llesiant mewn natur am gyfnod o 6 wythnos gyda grŵp perthnasol o gleientiaid.

3

### Defnyddio a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Credydau: 3

Mae'r uned hon yn ymwneud â deall ecosystemau ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn eu cymhwyso i safleoedd ac ymarfer y myfyrwyr eu hunain. Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygu ymwybyddiaeth o lesiant yr amgylchedd naturiol y mae'r ymarferydd yn gweithio ynddo.

Sylwer: Nid yw'r cwrs hwn yn dysgu i fyfyrwyr y sgiliau ymarferol sy'n berthnasol i 'genres' penodol, e.e. sgiliau Byw yn y Gwyllt neu Grefft Natur. Bydd y rhan fwyaf o'r cyrsiau'n cynnwys rhai gweithgareddau a sgiliau y gellid eu defnyddio gyda grwpiau, ond dylai fod gan ddysgwyr eu sgiliau ymarferol unigryw eu hunain ar waith neu efallai y bydd angen iddynt ymgymryd â hyfforddiant pellach. Mae'r unedau dewisol sy'n rhan o'r dystysgrif estynedig yn cynnig ystod o hyfforddiant ymarferol a allai fod o ddiddordeb yn yr achos hwn.

# Unedau dewisol

Gellir dewis yr unedau dewisol isod i gyflawni'r Dystysgrif Lefel 3 Estynedig ar gyfer Ymarferydd Llesiant mewn Natur neu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau neu ddiddordeb mewn maes penodol.



| Lefel 2 |
|---|
| Cynhyrchion Bondocio |
| Sgiliau Ymarferol ar gyfer yr Awyr Agored |
| Cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y tir |
| Cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr |

| Lefel 3 |
|---|
| Deall Cysylltiad Natur a Defnyddio Gweithgareddau sy'n Seiliedig ar Natur er budd Llesiant |
| Deall Iechyd Meddwl |
| Dulliau Cadarnhaol o Ddeall a Lleihau Ymddygiadau sy'n Herio |



# Pa safon o waith sydd ei angen?

Mae hwn yn gymhwyster Lefel 3 Agored Cymru sy'n cyfateb i safon Lefel A.

Rhai o'r unedau Dewisol sydd ar gael ar gyfer y dystysgrif Estynedig yw Lefel 2 sy'n cael eu haddysgu ar lefel graddau A*-C TGAU.

# Faint o amser fydd y cwrs yn ei gymryd?

| Cymhwyster | Credydau | Amcangyfrif o amser addysgu | Amcangyfrif o amser hunan-astudio ac amser cyflwyno ymarferol | Cyfanswm yr amser |
|---|---|---|---|---|
| Tystysgrif ar gyfer Ymarferwyr Llesiant mewn Natur | 13 | 30 Oriau | 100 Oriau | 130 Oriau |
| Tystysgrif Estynedig ar gyfer Ymarferwyr Llesiant mewn Natur | 21 | 76 Oriau | 134 Oriau | 210 Oriau |

# Gofynion Asesu

## Portffolio

Bydd gofyn i chi ddarparu portffolio o dystiolaeth i ddangos eich dealltwriaeth o'r Meini Prawf Asesu ar gyfer pob uned. Bydd canllawiau ar hyn a'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gael gan ddarparwr eich cwrs.



## Asesiad Ymarferol

Uned 2 – Ar gyfer y cwrs Hwyluso Llesiant mewn Natur, bydd angen i chi gyflwyno rhaglen Llesiant mewn Natur, a bydd un sesiwn yn cael ei harsylwi. Dylai'r rhaglen gynnwys o leiaf 6 sesiwn a fydd o leiaf 2 awr o hyd.

Sylwch y bydd angen i chi, yn rhai o'r atebion ar gyfer eich portffolio ysgrifenedig, gyfeirio at y wefan wirioneddol y byddwch yn ei defnyddio i gyflwyno eich sesiynau.

**Ar gyfer yr elfen cyflwyniad ymarferol o'r cwrs, mae 3 opsiwn:**

- Byddwch yn cyflwyno rhaglen fel rhan o'ch gwaith presennol.
- Os nad ydych yn gweithio gyda sefydliad sy'n darparu Presgripsiynu Cymdeithasol ar hyn o bryd, gallwch gyflwyno rhaglen ar gyfer sefydliad sy'n gweithredu sesiynau o'r fath yn eich ardal.
- Efallai y bydd eich darparwr cwrs yn gallu eich helpu i ddarparu un o'u rhaglenni.

# Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Mae'r cymhwyster hwn yn addas i unrhyw un sy'n gallu profi eu bod yn gweithio gydag oedolion, pobl ifanc neu grwpiau brregus i wella eu hiechyd a'u llesiant trwy gysylltu â natur, neu unrhyw un sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau er mwyn gweithio yn y sector hwn.



# Gofynion mynediad

- Yn 18 oed neu'n hŷn ar gyfer pob cymhwyster ar Lefel 3
- Bod â chymhwyster lefel 2 neu uwch mewn maes perthnasol NEU yn gallu profi eu bod yn gweithio, mewn rôl arweiniol, gydag oedolion, pobl ifanc neu grwpiau bregus sydd â heriau iechyd a llesiant
- Yswiriant priodol a chaniatadau i ddarparu rhaglenni Dysgu mewn Amgylcheddau Naturiol gyda'ch grŵp cleientiaid

## Argymhellion

- Cymhwyster Cymorth Cyntaf perthnasol
- Tystysgrif hylendid bwyd os oes bwriad i goginio bwyd yn yr awyr agored




# Llwybrau dilyniant

- Dilyniant ochrol o gyfres Rhwydwaith Hyfforddiant Dysgu Awyr Agored Cymru (OLTNW). Er enghraifft; Cydlynydd Dysgu yn yr Awyr Agored Lefel 3, Ysgol Goedwig neu Ymarferydd Ysgolion Arfordirol.

- I'r rhai sy'n dymuno darparu'r cymhwyster hwn yn y dyfodol, mae canllawiau pellach ar ragofynion ar gyfer bod yn hyfforddwr ar gael yn nogfennau canllawiau cymwysterau Rhwydwaith Dysgu Awyr Agored Cymru. Efallai y bydd llwybr Hyfforddi'r Hyfforddwr Lefel 4 hefyd ar gael drwy un o'r darparwyr cyrsiau a restrir yng nghefn y llyfryn hwn. Cysylltwch â nhw'n uniongyrchol am fwy o wybodaeth.

# Lefel 2 Cymhwyster Cefnogi Llesiant mewn Natur

Nod y cymhwyster hwn yw rhoi dealltwriaeth o lesiant ym myd natur a magu hyder i alluogi dysgwyr i gefnogi arweinwyr rhaglenni llesiant yn effeithiol.

## Nod y cwrs yw:

- Rhoi mewnwelediad dyfnach i'r maes llesiant ym myd natur
- Datblygu profiad ymarferol mewn sgiliau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda grwpiau natur
- Deall ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant pobl
- Darparu dealltwriaeth o sut i gefnogi llesiant mewn grwpiau natur
- Deall ffactorau sy'n dylanwadu ar lesiant yr amgylchedd.



# Unedau gorfodol a dewisol

## Uned Orfodol

**Cefnogi Llesiant mewn Ymarfer Natur**

Credydau: 3

Bydd yr uned hon yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol i'r dysgwr o sut i gefnogi iechyd a llesiant pobl a'r amgylchedd naturiol.

Mae hefyd yn cynnwys ffyrdd ymarferol o gefnogi rhaglen llesiant ym myd natur a manteision rhyngweithio â natur.

## Unedau Dewisol

Mae'r unedau dewisol canlynol ar gael fel rhan o'r cymhwyster hwn:

| |
|---|
| Defnyddio Gweithgareddau sy'n Seiliedig ar Natur er budd Llesiant |
| Ffyrdd iach o Fyw |
| Fforio am Blanhigion |
| Arsylwi Planhigion ac Anifeiliaid |
| Rheoli Coetiroedd yn Gynaliadwy |
| Sgiliau Ymarferol yn yr Awyr Agored |
| Cyflwyniad i Fondocio |
| Cynhyrchion Bondocio |

# Faint o amser fydd y cwrs yn ei gymryd?

| Cymhwyster | Credydau | Amcangyfrif o amser addysgu | Amcangyfrif o amser hunan-astudio | Cyfanswm yr amser |
|---|---|---|---|---|
| Dyfarniad Cefnogi Llesiant mewn Natur | 5 | 31 Oriau | 19 Oriau | 50 Oriau |
| Dyfarniad Estynedig | 9 | 60 Oriau | 30 Oriau | 90 Oriau |

# Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Rhaid i ddysgwyr fod yn 16 oed neu'n hŷn i gymryd y cymhwyster hwn. Mae ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno datblygu gwybodaeth a sgiliau ar gyfer cefnogi a gweithio gyda grwpiau llesiant mewn amgylchedd naturiol.



DIOLCH AM DDARLLEN

# Darparwyr Cwrs

Cysylltwch â darparwr cwrs yn uniongyrchol:

## Coed Lleol

Lleoliadau amrywiol ar draws Cymru a Chanolfan Green Wood yn Telford

cathyvelmans@smallwoods.org.uk
smallwoods.org.uk

## Down to Earth, Abertawe

De Cymru

info@downtoearthproject.org.uk
downtoearthproject.org.uk

## Dysgu Awyr Agored Gogledd Cymru

Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chonwy

polly@northwalesoutdoorlearning.co.uk
northwalesoutdoorlearning.co.uk

## Outdoor Tribe CIC

Swydd Northampton, Swydd Gaergrawnt a Swydd Bedford

susan@outdoortribe.co.uk
outdoortribe.co.uk

Datblygwyd y cyrsiau hyn mewn partneriaeth â'r sefydliadau canlynol: